



Y WERIN
CRONFA DREFTADAETH
LEGACY FUND
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC
The UW Restricted Endowment Trust

Ysgoloriaeth Deithio Goffa T Alwyn Lloyd

Mae'r gronfa hon yn cynnwys incwm blynyddol o ryw £3,000 sy'n deillio o gymynrodd i Brifysgol Cymru gan y diweddar Thomas Alwyn Lloyd LLD FRIBA.

1. Dyfernir ysgoloriaeth o Gymynrodd T Alwyn Lloyd gan UWRET yn flynyddol, os ceir teilyngdod, ar argymhelliad Ysgol Bensaerniaeth Cymru. Rhaid i'r ymgeiswyr feddu ar radd BSc mewn Astudiaethau Pensaernïol. Gellir dyfarnu mwy nag un Ysgoloriaeth o'r incwm o'r gronfa mewn unrhyw un flwyddyn.
2. Dyfernir yr Ysgoloriaeth am yr hyn a gyflawnir yn arholiad terfynol gradd BSc Astudiaethau Pensaernïol.
3. Rhaid i'r Ysgoloriaeth, a all fod yn werth hyd at £2,500, gael ei defnyddio gan y deiliad yn ystod cwrs gradd MArch y Brifysgol. Telir 75% o werth yr Ysgoloriaeth ymlaen llaw, a'r 25% arall pan gyflwynir adroddiad boddhaol gan y deiliad.
4. Amcan yr Ysgoloriaeth yw galluogi'r deiliad i barhau i astudio Pensaerniaeth drwy deithio.
5. Rhaid i ddeiliad yr Ysgoloriaeth, o fewn tri mis ar ôl cymhwyso ar gyfer gradd MArch, gyflwyno adroddiad i UWRET, ar ffurf a fydd yn addas i'w chyhoeddi.
6. Rhaid i bob cyhoeddiad sy'n adrodd canlyniadau astudiaethau'r ysgolhaig ddatgan yn glir fod y gwaith wedi'i wneud yn bosibl gan Ysgoloriaeth Deithio Goffa T Alwyn Lloyd a ddyfarnwyd gan UWRET.
7. Rhaid i argymhellion ar gyfer dyfarnu'r Ysgoloriaeth gyrraedd UWRET, Cofrestrfa Prifysgol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS, ar neu cyn 1 Ionawr ym mhob blwyddyn.

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.